SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## HYDREF-RHAGFYR 2025

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk


© Vaughan Matthews

## Cap cwyr pinc

Mae'r **cap cwyr pinc** (*Porpolomopsis calyptriformis*) yn lliw pinc trawiadol. Mae'r rhywogaeth hon yn ffynnu mewn priddoedd heb lawer o faetholion, ac mae hyn yn aml yn nodi dolydd iach, sy'n cael eu rheoli'n draddodiadol ac sy'n dal i gael eu pori a bod fawr ddim neu ddim gwrtaith yno. Mae'r cap cwyr pinc wedi dod yn brin oherwydd bod cynefinoedd wedi'u colli yn sgil amaethu dwys a datblygiadau ond mae'n aml yn cael ei dangofnodi. Mae'r cap cwyr pinc yn rhywogaeth â blaenoriaeth i'w gwarchod ac yn ddangosydd defnyddiol o laswelltiroedd 'hynafol' sydd bellach mor brin yn ein tirwedd.


© Rhian Lewis

## Llygod y coed

Mae llygod y coed (*Apodemys sylvaticus*) yn aml yn defnyddio blychau i bathewod, yn enwedig yn yr hydref a'r gaeaf. Maen nhw'n defnyddio'r blychau fel llochesi diogel ar gyfer gorffwys a storio bwyd, fel hadau a chnau. Yn wahanol i bathewod, nid yw llygod y coed yn adeiladu nythod cymhleth; yn lle hynny, efallai y byddan nhw'n leinio'r blwch â dail neu laswellt ar gyfer inswleiddio. Gall eu presenoldeb weithiau nodi bod cysylltedd da rhwng cynefinoedd, gan eu bod yn dibynnu ar wrychoedd ac ymylon coetiroedd. Ond gall defnydd aml gan lygod y coed gymhlethu'r gwaith o fonitro pathewod oherwydd mae'n hawdd camgymryd eu harwyddion am rai pathewod.


© Tanya Jordan

### Bysedd cythraul

Mae'r ffwng bysedd cythraul (*Clathrus archeri*) yn sicr yn un o ryfeddodau mwyaf natur. Mae'n dechrau fel coden wen, tebyg i ŵy cyn ffrwydro ar agor yn freichiau coch llachar, tebyg i fysedd sy'n edrych fel tentaclau. Mae'r breichiau hyn yn rhyddhau arogl drwg i ddenu pryfed, sy'n helpu i ledaenu ei sborau. Yn wreiddiol o Awstralia a Seland Newydd, mae bellach i'w gael mewn rhannau o Ewrop, yn aml mewn coetiroedd, gerddi neu laswelltiroedd. Er gwaethaf ei edrychiad brawychus a'i arogl drwg, mae'n ddiniwed - ond yn enghraifft ddiddorol o ba mor wych yw ffyngau!



## Gwas neidr glas

Mae'r gwas neidr glas *(Aeshna juncea*) gwrywaidd yn rhywogaeth drawiadol sy'n cael ei gweld ger pyllau mewn rhostiroedd a chorsydd. Mae gan y gwas neidr glas gorff tywyll wedi'i farcio â smotiau glas llachar ar hyd yr abdomen a streipiau thoracs gwyrdd. Mae gwrywod yn patrolio dros ddŵr, yn amddiffyn tiriogaethau ac yn chwilio am fenywod. Maen nhw'n helwyr ystwyth, yn dal pryfed yng nghanol yr awyr gyda genau pwerus. Mae gweision neidr glas yn hedfan ddiwedd y tymor, ac yn aml yn cael eu gweld rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, gan chwarae rhan bwysig wrth reoli poblogaethau mosgitos a gwybed mân.



## Plisgen ŵy morgath

Mae plisgennau wyau morgathod yn gapsiwlau amddiffynnol sy'n cynnwys embryonau sy'n datblygu i fod yn forgathod. Mae'r plisgennau caled, lledraidd hyn fel arfer yn betryalog gyda phigau tebyg i gyrn yn y corneli, sy'n eu helpu i angori i wymon neu wely'r môr. Y tu mewn, mae'r embryo'n bwydo ar gydau melynwy hyd nes ei fod wedi'i ddatblygu'n llawn, sef proses a all gymryd sawl mis. Mae plisgennau gwag yn aml yn cael eu golchi i'r lan ar draethau, gan ddarparu cliwiau am rywogaethau sy'n byw ar y môr. Mae cofnodi'r darganfyddiadau hyn yn helpu i fonitro poblogaethau morgathod ac yn cyfrannu at ymdrechion cadwraeth forol.



## Celyn y môr

Yn y gaeaf, mae celyn y môr (*Eryngium maritimum*) yn datgelu ei harddwch ysgerbydol. Mae dail glas-wyrdd y planhigyn yn sychu i fod yn strwythurau anhyblyg, pigog, ac mae eu gwythiennau cymhleth yn ffurfio rhwyllau cain sy'n dal rhew a golau. Mae'r blodau'n dal i fod fel bractau brau, papuraidd o amgylch côn canolog. Gall y sgerbydau hyn oroesi gwyntoedd arfordirol, gan gynnig cysgod i bryfed ac ychwanegu diddordeb gaeafol i'n twyni.



## Cynffon twrci

Mae'r cynffon twrci (*Trametes versicolor*) ymhlith y ffyngau coetir mwyaf adnabyddus, diolch i'w fandiau lliw llachar, consentrig. Mae'r ffyngau hyn yn tyfu ar foncyffion a bonion wedi gwywo, gan ffurfio haenau o rosglymau sy'n debyg i blu cynffon twrci. Mae'r bandiau'n amrywio o hufen a melynddu i liwiau brown cyfoethog, glas, a hyd yn oed porffor, sy'n cael eu creu gan amrywiadau o ran pigment ac oedran. Nid yw'r patrwm trawiadol hwn yn addurniadol yn unig - mae'n helpu i guddliwio'r ffwng yn ei amgylchedd. Mae ffwng yn chwarae rôl ecolegol hanfodol trwy dorri lignin caled mewn pren, gan ailgylchu maetholion yn ôl i ecosystemau coedwigoedd.



## Rhisgl ar hen goeden dderw

Mae'r rhisgl ar hen goed derw yn archif fyw. Gall gynnwys holltau dwfn, a gall ei wyneb garw ddarparu cysgod i amrywiaeth o organebau, o fwsoglau a chennau i bryfed a chorynnod. Mae'r craciau a'r agennau hyn yn creu microgynefinoedd sy'n cefnogi bioamrywiaeth, ac mae'r rhisgl ei hun yn amddiffyn y goeden rhag tywydd garw a phlâu. Dros ddegawdau, mae'r rhisgl yn mynd yn fwy trwchus ac yn tywyllu, gan adlewyrchu oedran a chryfder y goeden. Y tro nesaf y byddwch chi'n gweld hen goeden, beth am edrych yn fanylach. Mae gan risgl rôl hanfodol o ran cynnal ecosystemau coetiroedd.



## Llus coch

Anaml y mae llus coch yn cael eu recordio yn Sir Gâr (cafodd y llun hwn ei dynnu ar y Blorens ger y Fenni!). Mae llus coch (*Vaccinium vitis-idaea*) yn llwyn bytholwyrdd a geir ym mhriddoedd asidig rhostiroedd, gweundiroedd a choedwigoedd yr ucheldir. Ar ddiwedd yr haf a'r hydref mae'n cynhyrchu aeron coch llachar nodweddiadol. Mae'r rhain yn llawn gwrthocsidyddion ac, yn draddodiadol, yn cael eu defnyddio mewn jamiau a chyffeithiau. Mae llus coch yn darparu bwyd i fywyd gwyllt, gan gynnwys adar a mamaliaid sy'n darparu ffynhonnell fwyd hanfodol mewn cynefinoedd sydd heb lawer o faetholion.



## Ceirw'r gwellt

Mae carw'r gwyllt yn arachnid ond nid yn gorryn go iawn. Yn wahanol i gorryn, mae ganddo gorff wedi'i asio heb wasg cul ac nid yw'n cynhyrchu sidan na gwenwyn. Mae tua 25 o rywogaethau'n byw yn y DU. Mae ei goesau hir iawn yn ei helpu i lywio dail sydd wedi cwympo a llystyfiant. Gall ceirw'r gwellt fod yn ysglyfaethwyr, gan fwyta infertebratau llai y maen nhw'n eu dal gan ddefnyddio bachau ar ddiwedd eu coesau, neu'n sborionwyr, sy'n bwydo ar unrhyw beth y gallan nhw ddod o hyd iddyn nhw. Maen nhw'n chwarae rôl bwysig o ran ailgylchu maetholion. Maen nhw'n gyffredin mewn cynefinoedd llaith fel coetiroedd a gerddi.



© Alice Connell

## Titw'r helyg a modrwyo adar

Mae titw'r helyg (*Poecile montanus*) yn un o'r adar sydd mwyaf dan fygythiad yn y DU, sy'n dirywio'n sydyn yn sgil colli a darnio cynefinoedd. Mae'n well ganddo goetir llaith gyda digon o bren marw ar gyfer nythu. Mae monitro rhywogaethau trwy fodrwyo adar yn chwarae rôl allweddol o ran gwarchod rhywogaethau. Trwy osod modrwyau ysgafn, wedi'u rhifo, mae ymchwilwyr yn gallu olrhain symudiadau, cyfraddau goroesi, a llwyddiant bridio. Mae'r data hwn yn llywio ymdrechion rheoli ac adfer cynefinoedd, gan helpu i wrthdroi dirywiad mewn poblogaeth. Mae modrwyo hefyd yn datgelu patrymau mudo a hirhoedledd, gan gyfrannu at ddealltwriaeth ecolegol ehangach. Roedd modrwywr adar hyfforddedig wedi dal yr aderyn hwn yn Llyn Llech Owain. Rydyn ni'n gobeithio arolygu mwy o safleoedd ar gyfer y rhywogaeth bwysig hon.

amphibian and reptile conservation

Butterfly Conservation Wales
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Botanical Society of the British Isles

buglife

Bumblebee Conservation Trust
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn

The carbon community

Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Bird Club

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Carmarthenshire Meadows Group
Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin

CoedLleol SmallWoods

Dŵr Cymru Welsh Water

Floodplain Meadows Partnership

Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru
Initiative for Nature Conservation Cymru

LLANELLI NATURALISTS
NATURIAETHWYR LLANELLI

Mid Wales Red Squirrel Partnership
Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur
Nature Friendly Farming Network

PROJECT SEAGRASS

Plantlife

RSPB

Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

WWBIC
WEST WALES BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH GORLLEWIN CYMRU

WEST WALES RIVERS TRUST
YMDDIRIEDOLAETH AFONYDD GORLLEWIN CYMRU

WWT

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of South & West Wales

COED CADW WOODLAND TRUST

VWT Vincent Wildlife Trust



**Partneriaeth Natur Sir Gâr**